

Annwyl Syr / Fadam,

Atodir agenda a dogfennau eraill isod ar gyfer cyfarfod o'r **GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG ECOLEGOL**.

NODER – NID YW'R CYFARFOD HWN YN AGORED I'R CYHOEDD.

Yr eiddoch yn gywir,

Gary Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democraidd

Dear Sir / Madam,

An agenda and other documents for a meeting of the **CLIMATE CHANGE AND ECOLOGICAL EMERGENCY WORKING GROUP** are attached below.

PLEASE NOTE – THIS MEETING IS NOT OPEN TO THE PUBLIC.

Yours faithfully,

Gary Williams

Head of Legal, HR and Democratic Services

AGENDA

- 1 RHAGLEN** (Tudalennau 3 - 4)
- 2 COFNODION** (Tudalennau 5 - 14)

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN

CYFARFOD: GWEITHGOR NEWID HINSAWDD AC ARGYFWNG

ECOLEGOL

Dyddiad	9 Chwefror 2021
Amser	10.00-11.30
Lleoliad	Microsoft Teams
Cadeirydd	Y Cyng. Graham Timms
Hwylusydd	Helen Vaughan-Evans (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd)
Ymddiheuriadau	I'w cadarnhau

- | | |
|---|---------------|
| 1. Croeso ac ymddiheuriadau | 10.00 – 10.05 |
| 2. Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf | 10.05 - 10.20 |
| 3. Thema: Defnydd Tir er budd dal carbon a gwelliant ecolegol | 10.20 – 11.20 |
| <ul style="list-style-type: none"> • Dysgu am Raglen Creu Coetir Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a sut i fesur effaith amsugniad carbon ar lefel prosiect – Cyflwyniad a Sesiwn Holi ac Ateb gan Eifion Jones (Cynghorydd Arbenigol, Creu Coetir), CNC • Trafodaeth am ystyriaethau Defnydd Tir ar gyfer CSDd i gyrraedd ein nodau di-garbon net a Chyngor Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2030. | |
| 4. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac unrhyw fater arall | 11.20 – 11.30 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag



Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol

Dyddiad 14 / 01 / 2021

Amser 10.00 - 11.30

Lleoliad Fideo-Gynadledda Webex

Yn bresennol Cynghorydd Bobby Feeley (BF); Cynghorydd Barry Mellor (BM); Cynghorydd Brian Jones (BJ); Cynghorydd Graham Timms (GT); Cynghorydd Joe Welch (CJW); Cynghorydd Tony Thomas (TT); Cynghorydd Ellie Chard (EC); Cynghorydd Alan James(AJ)

Ymddiheuriadau Judith Greenhalgh (JG), Cynghorydd Arwel Roberts (AR); Nicola Kneale (NK) Cynghorydd Gwyneth Kensler (GK); Cynghorydd Rhys Thomas (RT); Cynghorydd Meirick Ll. Davies (MD);

Hefyd yn bresennol Swyddogion Cefnogi: Helen Vaughan-Evans (HVE), Liz Wilcox-Jones (LWJ); Tom Booty (TB); Howard Sutcliffe (HS); Andrew Cutts (AC), Heidi Barton-Price (HBP), Joel Walley (JW), Tony Ward (TW), Manon Celyn (MC), Sian Owen (SO)

1. Croeso ac ymddiheuriadau

Croesawodd GT, y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau.

2. Cofnodion a chymau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Cytunwyd bod y cofnodion o'r cyfarfod diwethaf yn gywir.

Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

Adolygwyd camau gweithredu'r cyfarfod blaenorol a rhoddwyd diweddariad gan HVE. Gweler y tabl isod sy'n rhoi crynodeb o'r hyn sydd wedi'i wneud.

CAM GWEITHREDU	DIWEDDARIAD
<p>RP – darparu manylion cyswllt ar gyfer arweinydd defnydd tir yn Llywodraeth Cymru er mwyn i gynrychiolwyr CSDd gael cyfarfod.</p>	<p>AR Y GWEILL</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae HVE wedi gofyn a cheisio cael gafael ar yr e-bost.
<p>HVE – gwneud newidiadau i'r llythyr at Lesley Griffith AS a'i anfon at BJ i'w adolygu</p>	<p>AR Y GWEILL</p>
<p>TW – trafod gyda Nigel Highfield yn Rheoli Cyfleusterau ynglŷn â chyflwyno bwydlenni carbon isel a dod â syniadau nôl i'r grŵp.</p>	<p>CWBLHAWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wedi adrodd yn ôl i'r grŵp ar 17.12.20
<p>GT – Fel Cadeirydd y Gweithgor, i awgrymu wrth Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgor Craffu am y cyfle i adroddiad ysgrifenedig gan wasanaeth Arlwygo Ysgolion i fynd gerbron y Pwyllgor Craffu ym mis Medi/Hydref 2021 ynglŷn â chynnydd a wnaed o ran carbon isel a lleihau ar ddefnydd plastig untro.</p>	<p>AR Y GWEILL</p>
<p>LD – anfon canlyniadau arolygon staff mewn cysylltiad â ffyrdd newydd o weithio at HVE i'w dosbarthu i weithgor Argyfwng Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol.</p>	<p>DISODLWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd adroddiad ar lafar i'r grŵp ar 17.12.20 • Bydd canlyniadau'r arolwg yn cael eu hanfon at staff a Chynghorwyr yr un pryd ym mis Ionawr 2021
<p>LD – i adrodd yn ôl i'r gweithgor Ffyrdd Newydd o Weithio am bryderon a fynegwyd nad yw rhai cyfarfodydd yn gweithio dros y we a'r angen i ddosbarthu gofynion yswiriant manteision treth i staff sydd bellach yn gweithio o adref.</p>	<p>DISODLWYD</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rhoddwyd adroddiad ar lafar i'r grŵp ar 17.12.20 • Gweler y cam gweithredu isod ar gyfer HVE

Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

CAM GWEITHREDU	DIWEDDARIAD
HVE – anfon yr wybodaeth a gasglwyd o gyfarfod y gweithgor a gynhaliwyd ym mis Tachwedd at AS.	CWBLHAWYD
HVE – gwneud newidiadau i'r ddogfen strategaeth yn sgil adborth y cyhoedd.	AR Y GWEILL
HVE – trafod gyda'r Gwasanaethau Democraataidd ynglŷn â newid cymeradwyo'r Strategaeth i fis Chwefror 2021 yn y Blaen Gynllun.	CWBLHAWYD <ul style="list-style-type: none"> • Cabinet – 16 Chwefror • Y Cyngor – 23 Chwefror
HVE – llunio a chyhoeddi Adroddiad Ymateb i'r Ymgynghoriad i'r cyhoedd.	AR Y GWEILL <ul style="list-style-type: none"> • Wedi'i lunio – bellach gyda'r cyfieithwyr i gael fersiwn Gymraeg • Y nod yw ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Ionawr
HVE – symud agendau mis Ionawr a Chwefror a sicrhau bod cynrychiolwyr Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymuno.	CWBLHAWYD

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â Llythrennedd Carbon. Rhoddodd HVE y newyddion diweddaraf i'r grŵp ynglŷn â faint sydd wedi'i dderbyn yn y cohort blaenoriaeth hyd yn hyn (yn cynnwys Cynghorwyr, Tîm Arwain Strategol, Rheolwyr Canol a swyddogion allweddol eraill. Cafwyd trafodaeth ynglŷn ag annog pob Cynghorydd i gofrestru ar gyfer y cwrs. Cytunwyd y bydd aelodau sefydlog y gweithgor hwn yn cymryd cyfrifoldeb i annog Cynghorwyr ymhlith eu grwpiau gwleidyddol i gofrestru ar y cwrs.

Dywedodd BM wrth y grŵp ei fod wedi derbyn llythyr gan etholwr oedd wedi clywed am gyfle Llythrennedd Carbon ac roeddynt yn bryderus mai dim ond ar gyfer rheolwyr a staff swyddfeydd dy byddai hwn ar gael.

Eglurodd HVE y bydd llefydd sy'n weddill ar agor i bob aelod staff ar draws y Cyngor o 28 Ionawr ymlaen.

Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

CAMAU GWEITHREDU:

- **HVE** i roi gwybodaeth i aelodau sefydlog y grŵp yma er mwyn iddynt e-bostio/annog cynghorwyr i archebu lle ar yr hyfforddiant erbyn 27 Ionawr.
- **CYNGHORWYR Y GRŴP YMA** i annog cynghorwyr o fewn eich grŵp gwleidyddol er mwyn cofrestru ar gyfer hyfforddiant Llythrennedd Carbon.
- **HVE/LWJ** – hyrwyddo'r llefydd sydd ar ôl i bob aelod staff o 28 Ionawr ymlaen.

3. Thema: Newid Ymddygiad – Annog a chynnal ymddygiad carbon isel ac ecolegol gadarnhaol ymysg staff a chynghorwyr

Damcaniaeth Newid Ymddygiad

Cafwyd cyflwyniad gan SO am Ddamcaniaeth Newid Ymddygiad roedd hi wedi'i gasglu gyda deunyddiau gan Brifysgol Bangor, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Wedi siarad am: Gallu, Cyfle ac Ysgogiad (*Capability, Opportunity and Motivation - COM*).

Gallu (*Capability*) – Oes gan y gynulleidfa y sgiliau cywir?


Cyfle (*Opportunity*) – oes gan y gynulleidfa yr adnoddau gofynnol?

Ysgogiad (*Motivation*) – ydi'r gynulleidfa eisiau bwrw ymlaen â'r ymddygiad dymunol?

Cyfathrebu effeithiol – mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei gynnwys a'i ddefnyddio'n dda.

Bydd cyfathrebu mewn dull gwahanol yn iawn i bobl wahanol.

Dyma'r broses i ddylunio a chyflwyno ymgyrch/menter Newid Ymddygiad.



Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

Awgrymodd SO ein bod yn cynnal cyfnod prawf o'r broses yma ar gyfer rhan fechan o agenda Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol i weld os bydd hyn yn gweithio ac yna ei gyflwyno i rannau eraill o'r Rhaglen.

Mae fideos byr (*talking heads*) yn ddefnyddiol – e.e. os ydi Cynghorydd wedi cael profiad da ar yr hyfforddiant, fe allant ei rannu fel fideo er mwyn annog pobl eraill i wella eu gwybodaeth.

Y Gymraeg – annog a chynnal pobl i ymwneud â'r Gymraeg yn y Cyngor

Fe soniodd MC am ei phrofiad ac argymhellion yn ei gwaith i annog a chynnal pobl i ymwneud â'r Gymraeg yn y Cyngor.

Pwysleisiodd yr angen i geisio ei wneud yn hwyl ac nid yn feichus – gwella lles corfforol a meddyliol e.e. grwpiau gerdded, Cled y Corrach (annog ymgysylltu), Côt Sir y Sain ac ati.

Mae ymgysylltu ar gyfryngau cymdeithasol yn annog pobl i gymryd rhan. Os ydi rhywbeth yn boblogaidd, caiff pobl eraill eu hannog i gymryd rhan yn y dyfodol.

Y 5 awgrym oedd:

1. Cadw pethau'n hwyliog ac yn syml
2. Ymgynghori a chynllunio gyda phobl eraill
3. Dod i adnabod pawb sy'n cymryd rhan
4. Gwneud iddynt deimlo'n rhan o gymuned
5. Rhoi cynnig ar unrhyw beth

Mae meithrin ymgysylltiad a chynllunio rhaglenni yn anodd i'w wneud dros y we, ond nid yw'n amhosibl.

Trafodaethau bwrdd

Diolchodd GT i SO a MC am eu cyflwyniadau. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd a chyfleu'r neges yn effeithiol yn dasg enfawr a bydd yn cymryd amser i roi'r cyfan at ei gilydd.

Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

Dyweddod BF bod angen bod yn ofalus gyda'n negeseuon i beidio ag achosi negyddoldeb na dryswch. Sicrhau bod yr hyn rydym yn ei gyfathrebu yn syml a chlr. Rhaid cofio bod yna lawer nad ydynt yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol na TG (mae llawer yn ei osgoi ar hyn o bryd gan nad ydynt eisiau clywed newyddion dychrynlyd/negyddol. Sicrhau ein bod yn realistig gyda'n disgwyliadau ar newid ymddygiad ac osgoi'r perygl o atal pobl rhag bod eisiau ymgysylltu.

Dyweddod HVE ei bod hi'n ymddangos bod y teimlad o fod yn rhan o cohort yn bwysig o'r hyn rydym wedi'i glywed gan SO a MC. Grŵp o Gefnogwyr Hinsawdd efallai.

Dyweddod HVE ei bod hi'n bwysig deall ac adnabod y prif ymddygiadau rydym eisiau eu newid – gall rhai o'r pethau yn ein strategaeth staff/cynghorwyr gyfrannu'n uniongyrchol – teithio at ddibenion busnes, y gadwyn gyflenwi, cymudo gan staff, arferion carbon isel yn y swyddfa (gwastraff, ynni). Bydd angen dadansoddiad ac ymchwil gan fudd-ddeiliad.

Dyweddod HVE bod tŷ yn bwysig. Mae sicrhau ei fod yn aros yn hwyliog er mwyn cadw sylw pobl yn bwysig. Straeon cadarnhaol i'w rhannu. Cysylltiad i'r celfyddydau efallai, iechyd a lles. Digwyddiad blynyddol â ffocws sy'n gysylltiedig â gwyliau cenedlaethol/bydeang e.e. Diwrnod y Ddaear efallai.

Fe awgrymodd HBP greu cymeriad e.e. 'Zog di-garbon' efallai, fel 'Gŵr Rheolau'r Groes Werdd' i rannu dysgu mewn ysgolion.

Dyweddod JW ei fod yn ymwneud ag atgyfnerthu'r ymddygiad rydych chi ei eisiau a cheisio cael gwared ar y rhai nad ydych eu heisiau – ei wneud yn hwyliog er mwyn annog pobl i ymddwyn fel rydym ni eisiau iddynt. Mae hi'n dasg anodd i wneud hyn yn effeithiol, mae yna lawer o heriau.

Roedd GT eisiau clywed pa mor bell y mae negeseuon am Newid Hinsawdd a Newid Ecolegol wedi cyrraedd o fewn y cyngor – ai uwch swyddogion yn unig? Cadarnhaodd HS fod ei swyddogion o fewn y Gwasanaeth Cefn Gwlad yn ymwybodol.

Dyweddod SO ei bod hi'n neges enfawr i'w chyfleu. Mae angen ei rhannu a'i herio ar wahân – mae'n bosib na fydd modd mynd i'r afael â nhw i gyd yn yr un ffordd.

Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

Fe soniodd TW bod yr ymgyrch genedlaethol yn targedu grwpiau nad ydynt yn ailgylchu ac mae CSDd yn rhan o'r ymgyrch honno.

Dywedodd LWJ bod angen i ni arwain trwy esiampl lle gallwn ni a chyfathrebu hyn ar draws yr awdurdod ac i'r cyhoedd yn y modd mwyaf effeithiol. Po fwyaf y mae pobl yn gweld ymddygiad pobl eraill yn newid, y mwyaf tebygol ydyw y bydd rhagor yn ymuno. Efallai y gallwn rannu rhywfaint o'r pethau rydym wedi'u rhannu'n fewnol ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol cyhoeddus e.e. unrhyw fideos byr y byddwn yn eu creu yn y dyfodol am unrhyw newidiadau cadarnhaol mewn ymddygiad.

Diolchodd HVE i'r grŵp am eu syniadau a'r drafodaeth. Roedd yna lawer i feddwl amdano ac i'w gynllunio ar gyfer 2021/22.

CAMAU GWEITHREDU:

- **HVE/LWJ** i lunio cynllun newid ymddygiad a chyfathrebu ar gyfer 2021/22.

4. Rhaglen gwaith i'r dyfodol a chyfarfodydd nesaf

Aeth HVE â'r grŵp drwy'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Mis	Eitemau arfaethedig gyfer eu trafod
9 Chwefror	<u>Thema: Defnydd Tir</u> <ul style="list-style-type: none">• Defnydd Tir er budd dal carbon a gwelliant ecolegol• Dysgu gan Gyfoeth Naturiol Cymru
9 Mawrth	<u>Thema: Cau'r grŵp a dathlu llwyddiant</u>

Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

	<ul style="list-style-type: none">• Myfyrio ynghylch ystyriaethau'r Cyngor o'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Newid Hinsawdd ac Ecolegol.• Edrych yn ôl ar siwrnai'r grŵp ers datgan yr argyfwng• Cynlluniau ar gyfer llywodraethu a chraffu ar gynnydd y rhaglen hon wrth symud ymlaen• Gwersi a ddysgwyd a'r camau nesaf i'r Cyngor.
--	---

5. Unrhyw Fater Arall

Dyweddodd GT wrth y grŵp bod y Pwyllgor Plastig wedi cael cais i ddod a'u gwaith i ben ac fe awgrymwyd eu bod yn ymuno â'r Gweithgor Newid Hinsawdd yn lle (er bod disgwyl i'r grŵp yma gael ei ddirwyn i ben ym mis Mawrth). Mae gwaith prydau ysgol wedi cael ei atal oherwydd Covid. Cafwyd cwestiwn ynghylch sut y gellir datblygu a symud ymlaen â hyn? Oes modd iddynt fod yn rhan o'r grŵp yma?

Fe ychwanegodd AJ y bydd hyn yn mynd rhagddo am gryn amser ac roedd yn teimlo nad oedd yn gwneud synnwyr bod y grŵp yma'n gorffen ym mis Mawrth. Nid oedd yn deall pam y dylai'r grŵp ddod i ben? Fe ychwanegodd bod pobl yn mynd allan i gerdded ac mae yna newid ymddygiad tawel eisoes yn digwydd (wrth i bobl ymarfer corff yn lleol yn sgil cyfyngiadau'r Coronafeirws) gyda phobl yn mwynhau ein llwybrau a'r cefn gwlad na fyddai wedi manteisio arnynt o'r blaen. Mae'r agenda yma'n cael ei drafod ar lefel Cyngor Tref hyd yn oed ac mae'n teimlo ei fod yn rhy bwysig i ddod i ben.

Fe eglurodd GT mai cyfnod penodol o amser sydd gan y grŵp yma gan ei fod wedi cael ei sefydlu yn sgil y cynnig. Byddai angen i'r Gwasanaethau Democritaidd sefydlu grŵp newydd petaem ni'n parhau.

Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

Nid oedd TB yn ymwybodol o'r grŵp Plastig. Roedd HVE wedi gwneud gwaith da gyda'r grŵp yma'n mesur targedau ac ati, ydi'r grŵp Plastig yn gwneud yr un fath? Allen nhw dynnu oddi ar ein agenda ni?

Grŵp Plastig – ydi'r grŵp yma wedi gosod targedau a datblygu dangosyddion perfformiad mesuradwy fel yr ydym ni wedi'i wneud gyda charbon ac ecoleg? Os nad ydyn nhw, mae yna lawer o waith i'w wneud yn cynnwys plastig yn yr agenda yma. Mae'n bosibl y bydd yn llawer o waith i Helen a Liz a fyddai'n tynnu oddi ar ein nodau uchel.

Fe ymhelaethodd hefyd ar blatiau rhifau gwyrdd ar ôl i wybodaeth am hyn gael ei anfon ar ôl y cyfarfod diwethaf. Oes rhywbeth y gallwn ni ei wneud fel Cyngor i gydnabod hyn, ac efallai cynnig parcio am ddim i'r rhai sydd â phlât rhif gwyrdd? Mae'n debyg y bydd y niferoedd yn eithaf isel i ddechrau felly fe fyddai'r gost yn isel, ond byddai'r neges gadarnhaol yn fanteisiol ac i'w groesawu.

Cytunodd GT bod angen rhoi rhagor o ystyriaeth i ddatrysiad y grŵp Plastig a chytunodd y gallai dynnu'r ffocws.

Dywedodd BJ bod grŵp tasg a gorffen yn cael ei ffurfio ar gyfer trafodaethau rheoli llifogydd/tir allai gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru ac awgrymodd bod angen i rywun o'r grŵp yma fod yn rhan ohono.

Gofynnodd HS a oedd modd i Wayne Hope ein Rheolwr Llifogydd fod yn fod yn rhan o'r grŵp?

Roedd GT yn deall mai'r penderfyniad oedd y byddai'n ddefnyddiol i'r grŵp yma gael ei ffurfio yn hytrach na'i fod yn mynd i Craffu.

Awgrymodd BJ bod angen i ni ddarganfod beth sy'n digwydd ac os felly, rydym angen rhywun o'r grŵp yma i fod yn rhan ohono.

Anfonodd AC e-bost i hysbysu'r grŵp am y gwaith sy'n cael ei wneud i gyflwyno 'Ased Byw' i gydweithwyr. Mae hyn wedi bod yn anodd ei wneud wyneb yn wyneb yn sgil y cyfnod clod, felly mae Andrew wedi creu cyflwyniad rhagarweiniol sydd ar gael yma - <https://wetransfer.com/downloads/9e7571380b0a68bd305684e4b86eed2420210113141104/8898df60de7b9f5cd2cbdf25d085882320210113141143/9598fd> (gadewch i Andrew

Nodiadau cyfarfod Gweithgor Argyfwng Hinsawdd ac Argyfwng Ecolegol 14.01.21

wybod os hoffech chi gael fersiwn Cymraeg). Byddai'n croesawu unrhyw adborth neu sylw sydd gennych chi.

CAMAU GWEITHREDU:

- **HVE** i ganfod a oes Grŵp Tasg a Gorffen Rheoli Llifogydd yn cael ei ffurfio a phenderfynu pa aelodau fyddai orau o'r grŵp yma i gymryd rhan.